**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/RE/0073/24

At:
Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru
Heddluoedd yng Nghymru

Copïau at:
Brif Swyddogion Cyllid Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru
Prif Gwnstabliaid Heddluoedd yng Nghymru
Prif Swyddogion Cyllid Heddluoedd yng Nghymru

31 Ionawr 2024

Annwyl Gomisiynwyr

**Setliad Terfynol yr Heddlu ar gyfer 2024-25**

Mae'r llythyr hwn yn eich hysbysu o elfen Llywodraeth Cymru o Setliad Terfynol yr Heddlu ar gyfer heddluoedd yng Nghymru yn 2024-25, yn amodol ar gymeradwyaeth Senedd Cymru.

Mae'r Swyddfa Gartref wedi cadarnhau y bydd holl heddluoedd Cymru yn derbyn cynnydd o 2.054% mewn cyllid craidd yn 2024-25.

Mae **Atodiad A** yn cynnwys manylion y Setliad Terfynol ar gyfer pob heddlu yng Nghymru. Nid yw'r dyraniadau ar gyfer yr heddluoedd unigol wedi newid ers y Setliad Dros Dro.

Bydd Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2024-25 (Y Setliad Terfynol – Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu) a gyhoeddwyd heddiw yn destun dadl yn y Senedd ar 20 Chwefror 2024.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r llythyr hwn, cysylltwch â’r Is-adran Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd Llywodraeth Leol drwy LGFPSettlement@llyw.cymru.

Yn gywir

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Atodiad A: Setliad Terfynol yr Heddlu ar gyfer Cymru, 2024-25

### Tabl 1a: Asesiad o Wariant Safonol (£m)[1]

| | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dyfed-Powys | 36.618 | 37.049 | 37.492 | 33.904 | 34.368 | 34.936 |
| Gwent | 54.593 | 55.236 | 55.896 | 50.547 | 51.239 | 51.996 |
| Y Gogledd | 52.743 | 53.377 | 54.012 | 48.845 | 49.530 | 50.387 |
| Y De | 127.269 | 128.757 | 130.295 | 117.826 | 119.425 | 120.772 |
| Cyfanswm | 271.223 | 274.419 | 277.694 | 251.122 | 254.563 | 258.090 |

### Tabl 1b: Cyllid Allanol Cyfun (Y Grant Cynnal Refeniw ac Ardrethi Annomestig Cenedlaethol, £m)[1]

| | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dyfed-Powys | 13.355 | 13.150 | 13.030 | 8.667 | 8.492 | 8.413 |
| Gwent | 31.701 | 31.790 | 31.857 | 25.939 | 26.069 | 26.196 |
| Y Gogledd | 22.496 | 22.614 | 22.523 | 16.513 | 16.334 | 16.361 |
| Y De | 75.848 | 75.845 | 75.989 | 62.352 | 62.575 | 62.501 |
| Cyfanswm | 143.400 | 143.400 | 143.400 | 113.470 | 113.470 | 113.470 |

### Tabl 1c: Grant yr Heddlu a Chyllid Gwaelodol (£m)[1,2,3,4]

| | 2019-20 | 2020-21 | 2021–22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dyfed-Powys | 36.993 | 40.967 | 44.497 | 52.272 | 54.996 | 56.379 |
| Gwent | 41.287 | 46.660 | 51.539 | 62.401 | 65.967 | 67.730 |
| Y Gogledd | 50.738 | 56.101 | 61.153 | 72.125 | 76.011 | 77.882 |
| Y De | 84.864 | 96.895 | 107.639 | 132.165 | 140.078 | 144.315 |
| Cyfanswm | 213.882 | 240.622 | 264.828 | 318.964 | 337.052 | 346.307 |

### Tabl 1d: Cyfanswm y Cymorth Canolog (£m)[1,2,3,4]

| | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dyfed-Powys | 50.348 | 54.116 | 57.528 | 60.939 | 63.488 | 64.792 |
| Gwent | 72.988 | 78.451 | 83.396 | 88.341 | 92.036 | 93.926 |
| Y Gogledd | 73.234 | 78.715 | 83.677 | 88.638 | 92.346 | 94.243 |
| Y De | 160.712 | 172.740 | 183.629 | 194.517 | 202.653 | 206.816 |
| Cyfanswm | 357.282 | 384.022 | 408.228 | 432.434 | 450.522 | 459.777 |

### Tabl 1e: Newid yng Nghyfanswm y Cymorth Canolog ers y flwyddyn flaenorol (%)[1,2,3,4]

| | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dyfed-Powys | 2.100% | 7.484% | 6.304% | 5.929% | 4.183% | 2.054% |
| Gwent | 2.100% | 7.484% | 6.304% | 5.929% | 4.183% | 2.054% |
| Y Gogledd | 2.100% | 7.484% | 6.304% | 5.929% | 4.183% | 2.054% |
| Y De | 2.100% | 7.484% | 6.304% | 5.929% | 4.183% | 2.054% |
| Cyfanswm | 2.100% | 7.484% | 6.304% | 5.929% | 4.183% | 2.054% |

Nodiadau:

1. Yn dilyn Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2015, cafodd cyllid ei drosglwyddo yn flynyddol gan y Swyddfa Gartref i Lywodraeth Cymru er mwyn i Lywodraeth Cymru ddarparu ei chyfraniad, fel y cytunwyd arno, at gyllid yr heddlu yng Nghymru. O 2022-23 ymlaen, nid yw'r cyllid ychwanegol hwn yn cael ei drosglwyddo mwyach. Yn hytrach, mae'n cael ei ddarparu gan y Swyddfa Gartref, drwy Grant yr Heddlu a'r Grant Atodol. O ganlyniad, bu gostyngiad o £29.93m yng nghyfraniad Llywodraeth Cymru at blismona yn 2022-23 a'r blynyddoedd dilynol. Newid gweinyddol yn unig yw hwn, ac nid yw'n golygu unrhyw newid yn y cyllid cyffredinol i unrhyw Heddlu.

2. Y swm o grant yr heddlu a nodir yn adran 3 o Adroddiad Grant yr Heddlu, sy'n cynnwys y dyraniad o dan 'Prif Fformiwla' ac 'Ychwanegu Rheol 1' (colofnau a a b), ynghyd â swm y 'cyllid gwaelodol' a sicrhawyd gan y Swyddfa Gartref yw hwn.

3. Dangosir y ffigurau ar gyfer 2024-25 cyn yr addasiad a wneir ar gyfer trosglwyddo cyllid y Gangen Arbennig, fel y'i nodir ym mharagraff 4.8 o Adroddiad Grant yr Heddlu.

4. Mae'r ffigurau ar gyfer 2023-24 wedi'u hailddatgan i gynnwys y cyllid yn ystod y flwyddyn a ddyrannwyd i'r heddluoedd ar gyfer cynnig cyflog 2023-24.